Gweinyddiaeth Cyfiawnder



# Yn y Llys:
# Bod yn ddiffynnydd yn Llys y Goron

# Yn y Llys: Bod yn Ddiffynnydd yn Llys y Goron

**Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth i'ch helpu i ddeall beth fydd yn digwydd os byddwch yn cael eich cyhuddo o drosedd ac yn gorfod mynd i Lys y Goron.**

---




### Cyngor Cyfreithiol

Gall staff y llys eich helpu gyda chwestiynau am y llys, ond ni allant roi cyngor cyfreithiol ichi na siarad gyda chi am eich achos.

Mae cael twrnai (cyfreithiwr neu fargyfreithiwr) i'ch helpu yn syniad da. Gallwch ofyn cwestiynau iddynt am eich achos, y llys a beth fydd yn digwydd os y'ch ceir yn euog.

Nid oes rhaid ichi gael twrnai. Mae gennych yr hawl i gynrychioli eich hun yn y llys, ond gall twrnai eich helpu. Efallai y byddwch yn wynebu treulio cyfnod yn y carchar.

Mae eich tîm amddiffyn (cyfreithiwr a/neu fargyfreithiwr) yn gweithio ichi. Byddant yn dadlau eich achos ar eich rhan yn y llys.

Os oes arnoch eisiau cael twrnai, dylech wneud y trefniadau cyn ichi ddod i Lys y Goron.

Os nad oes gennych dwrnai, gall y barnwr ofyn a oes arnoch eisiau cael un. Dywedwch wrth y barnwr os oes arnoch eisiau cael twrnai. Efallai y bydd yn rhoi amser ichi gael un.

Gallwch chwilio am gyfreithiwr yn:
www.solicitors.lawsociety.org.uk/

Gallwch chwilio am fargyfreithiwr yn:
www.directaccessportal.co.uk

---



### Beth fydd yn digwydd mewn treial?

Bydd yr erlynydd yn dweud eich bod wedi cyflawni'r drosedd. Bydd yr erlynydd yn dweud wrth y rheithgor pam eich bod wedi cael eich cyhuddo o'r drosedd.
Os bydd gennych dwrnai, bydd yn siarad ar eich rhan yn y llys oni bai bod rhywun yn gofyn cwestiwn ichi yn uniongyrchol.

Os nad oes gennych dwrnai, bydd y barnwr yn rhoi gwybodaeth ichi ar sut y gallwch gynrychioli eich hun.
Efallai y bydd tystion yn cael eu holi ynglŷn â'r drosedd. Byddwch chi hefyd yn cael cyfle i roi tystiolaeth a chyfle i ddweud eich dweud am yr hyn a ddigwyddodd.

---

## Y Rheithgor



Mae yna 12 o bobl ar y rheithgor. Maen nhw’n cael eu dewis ar hap.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymddwyn yn barchus ac yn dangos eich bod yn cymryd yr achos o ddifrif.

Bydd y rheithgor yn pwyso a mesur y dystiolaeth ac yn penderfynu a ydych yn euog ynteu’n ddieuog. Gelwir hynny yn ‘Rheithfarn’.

Os y’ch ceir yn ddieuog, gallwch fynd adref.

## Sut ddylwn i ymddwyn yn y llys?



Mae mynd i’r llys yn fater difrifol. Dylech ymddwyn yn barchus tuag at bawb.

Gofynnwch gwestiynau os nad ydych yn deall beth sy’n digwydd. Codwch eich llaw yn ddistaw i ddangos fod arnoch eisiau siarad.

Weithiau mae’n anodd clywed pan fyddwch yn y doc. Dywedwch wrth rywun os nad ydych yn gallu clywed.

Codwch ar eich traed pan fyddwch yn siarad.

Gofynnwch i staff y llys neu eich twrnai beth ddylech chi alw’r barnwr. Gall fod yn ‘Eich Anrhydedd’ neu’n ‘F’Arglwydd’ neu’n ‘F’Arglwyddes’.




Fel arfer, caniateir i’r wasg a’r cyhoedd fod yn y llys. Peidiwch â siarad gyda’ch teulu na’ch ffrindiau pan fyddwch yn y llys.

Diffoddwch eich ffôn neu diffoddwch y sain ar y ffôn. Peidiwch â’i ddefnyddio.

## Eich Ple



Os ydych am ddweud eich bod yn euog, dylech wneud hynny cyn gynted ag y bo modd.

Efallai y byddwch yn cael llai o ddedfryd os byddwch yn pledio’n euog. Gorau po gyntaf y dywedwch wrth y llys eich bod am bledio’n euog gan y bydd modd lleihau rhagor ar y gosb felly.

Mae’r uchod er gwybodaeth yn unig. Nid ydym yn eich annog i bledio’n euog os nad ydych yn euog o’r drosedd. Ceisiwch gyngor cyfreithiol.

**Beth yw dedfryd?**



Dedfryd yw'r gosb y byddwch yn ei chael os y'ch ceir yn euog neu os byddwch yn pledio'n euog. Gall eich dedfryd fod yn ddedfryd o garchar, yn ddedfryd gymunedol, yn ddirwy neu'n rhywbeth arall.

Efallai y bydd rhaid ichi ddod yn ôl ar ddiwrnod arall ar gyfer gwrandawiad dedfrydu.

Gallwch gael dedfryd ohiriedig. Mae hyn yn golygu na fydd rhaid ichi fynd i'r carchar oni bai eich bod yn cyflawni trosedd arall. Efallai bydd rhaid ichi wneud gwaith di-dâl, neu fynd i gyfarfodydd gyda swyddog prawf. Gelwir y rhain yn 'gofynion.' Os na fyddwch yn dilyn y gofynion gallwch gael eich cosbi, a gallwch gael eich anfon i'r carchar.

Bydd barnwr yn penderfynu ar eich dedfryd. Bydd barnwr yn ystyried llawer o bethau wrth benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi ichi. Er enghraifft, os oes gennych unrhyw euogfarnau eraill, efallai y bydd eich cosb yn llymach.



Ceir rhagor o wybodaeth yma:

www.gov.uk/how-sentences-are-worked-out

Ceir rhagor o wybodaeth am y dedfrydau am wahanol droseddau yma: www.sentencingcouncil.org.uk

**Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cael dedfryd o garchar?**

Os byddwch yn cael dedfryd o garchar yna bydd rhaid ichi fynd i'r carchar ar unwaith o'r llys.



Efallai na fyddwch yn gallu siarad gyda'ch teulu na'ch ffrindiau. Gall eich ffrindiau neu eich teulu wneud trefniadau i ddod i'ch gweld pan fyddwch yn y carchar.

Bydd y barnwr yn dweud wrthych pa mor hir y byddwch yn y carchar. Os nad ydych yn clywed neu os nad ydych yn deall unrhyw beth, dylech ofyn i'ch twrnai esbonio unwaith eto. Os ydych yn cynrychioli eich hun, dylech ofyn i'r barnwr esbonio unwaith eto.

### Eich cofnod troseddol



Os y'ch ceir yn euog, mae'n debyg iawn y cewch gofnod troseddol.

Gall hyn gael cryn effaith ar eich bywyd.

Efallai y bydd rhaid ichi ddweud wrth eich cyflogwr bod gennych gofnod troseddol, neu ei ddatgelu pan fyddwch yn gwneud ceisiadau am swyddi.

Efallai y bydd yn eich atal rhag teithio i rai gwledydd ar gyfer gwaith neu i fynd ar wyliau.

Ceisiwch gyngor cyfreithiol ynglŷn â'r hyn y mae'n rhaid ichi ei ddatgelu.

### Apeliadau

Gall pobl a gafwyd yn euog o drosedd yn Llys y Goron apelio yn erbyn y penderfyniad.

Gallwch apelio yn erbyn dedfryd neu reithfarn.

Dylech siarad â'ch twrnai am sut i apelio.

Os byddwch yn cael dedfryd o garchar gallwch ofyn am gymorth gyda'r broses.



Ceir gwybodaeth am apeliadau, a sut i wneud cais am apêl, ar wefan JUSTICE:

https://justice.org.uk/our-work/publications/how-to-appeal/

neu yn:

https://www.gov.uk/appeal-against-sentence-conviction/crown-court-verdict

Neu gellir ffonio'r Swyddfa Apeliadau Troseddol ar 02079 476011.

Dylech wneud hyn cyn gynted ag y bo modd. Mae yna derfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer gwneud cais am apêl.



Os bydd gennych ragor o gwestiynau, siaradwch â'ch twrnai neu staff y llys.